Newid, strategaeth a phrosiectau yn y gwaith T227

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r gallu i fyw a gweithio gyda newid yn hanfodol yn y byd sydd ohoni heddiw. Mae hyn yn arbennig o wir yn y gweithle, lle y gall heriau i'r ffordd bresennol o wneud pethau ddeillio o newidiadau ym maes technoleg, y gymdeithas, yr amgylchedd economaidd a llawer o ffactorau ategol eraill. Mae'r modiwl hwn sy'n seiliedig ar waith yn datblygu dealltwriaeth myfyriwr o darddiadau, natur a chanlyniadau newid ac mae'n datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gynllunio ac, o bosibl, arwain prosiectau ymarferol yn y gweithle a fydd yn cyd-fynd ac yn cyfrannu at y rhaglenni newid ehangach y gall fod angen i'w sefydliadau eu rhoi ar waith.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored. Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- y gallu i ddangos diddordeb a dealltwriaeth o ddysgu yn y gweithle ac astudio drwy lwybr gradd sylfaen
- y gallu i gefnogi myfyrwyr i gysylltu deunyddiau modiwl (cynllunio ar gyfer newid a phrosiectau) ag amrywiaeth eang o gyd-destunau gweithle
- bod yn hyderus o ran cydnabod a delio â newid a bod yn gyfarwydd â dulliau ar gyfer gweithio ar brosiect
- bod yn ymrwymedig i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd sy'n briodol i'r modiwl hwn. Er enghraifft, mae sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig yn faes allweddol ar gyfer datblygu cyflogadwyedd myfyrwyr, felly dylai tiwtoriaid fod yn hyderus yn eu galluoedd eu hunain yn y maes hwn.
- bod yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh ar gyfer ymchwilio i achosion newid ac ar gyfer datblygu cynlluniau prosiect.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad ymarferol o ddelio â newid yn y gweithle
- profiad blaenorol o helpu myfyrwyr i ddatblygu cynlluniau prosiect a sgiliau sy'n gysylltiedig â gweithio ar brosiect
- gwybodaeth am Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7